**Yn Adrodd i:** Y Cyngor Sir

**Dyddiad y Cyfarfod:** 11 Medi 2012

**Aelod Arweiniol:** Hugh Irving, Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid & Cymunedau

**Awdur yr Adroddiad:** David Davies, Rheolwr Cyswllt Cymunedol

**Teitl:** **Cyfamod y Lluoedd Arfog**

---

## 1. Ynghylch beth mae'r adroddiad?

Gofynnwyd i bob awdurdod lleol yng Nghymru (gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac eraill) lofnodi cyfamod cymunedol gyda'r Lluoedd Arfog sy'n ceisio sefydlu ymrwymiad i ofalu am bobl sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, eu teuluoedd a chyn filwyr. Nod y Cyfamod yw annog cymunedau lleol i gefnogi cymuned y Lluoedd yn eu hardal a chynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymysg y cyhoedd o'r problemau sy'n wynebu Cymuned y Lluoedd Arfog.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Mae angen penderfyniad gan y Cyngor i fabwysiadu'n ffurfiol:

a) Cyfamod Cymuned y Lluoedd Arfog

b) ac i Wasanaethau gymeradwyo'r Cyfamod a'i oblygiadau.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Fod y Cyngor yn cymeradwyo'r Cyfamod ac yn cytuno i wneud trefniadau i lansio'r Cyfamod yn ffurfiol mewn cyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol gyda chynrychiolwyr o'r Lluoedd Arfog a chynrychiolwyr o'r gymuned â diddordeb yn bresennol.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae Cyfamod Cymunedol yn ddatganiad gwirfoddol o gyd-gefnogaeth rhwng y gymuned sifil a'i chymuned leol o'r lluoedd arfog. Bwriedir iddo ychwanegu at gyfamod cenedlaethol y Lluoedd Arfog sy'n amlinellu goblygiad moesol rhwng y genedl, y llywodraeth a'r lluoedd arfog ar lefel leol.

Prif nodau'r Cyfamod Cymunedol yw:

- ❖ Annog cymunedau lleol i gefnogi Cymuned y Lluoedd Arfog yn eu hardal.
- ❖ Meithrin dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r problemau sy'n effeithio ar Gymuned y Lluoedd Arfog.

- Cydnabod a chofio'r aberth y mae Cymuned y Lluoedd Arfog yn ei wynebu
- Annog gweithgareddau sy'n helpu Cymuned y Lluoedd Arfog i gyfuno mewn bywyd cymdeithasol.
- Annog Cymuned y Lluoedd Arfog i helpu a chefnogi'r gymuned ehangach, trwy gymryd rhan mewn digwyddiadau a phrosiectau ar y cyd neu drwy gysylltu mewn ffyrdd eraill.

4.2 Ym mis Tachwedd 2011 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu 'Pecyn o Gefnogaeth i Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru' gyda'r **egwyddor allweddol o sicrhau nad yw'n dioddef unrhyw anfantais wrth geisio defnyddio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.** Mae Llywodraeth Cymru a'r Llywodraeth Ganol yn disgwyl y bydd y sector cyhoeddus yn talu sylw i faterion sy'n effeithio ar gymuned y Lluoedd Arfog, gan gynnwys:

- **gwasanaethau cymdeithasol** (iechyd meddwl, ymdrin â stres, profedigaeth ayb)
- **addysg** (dalgylchoedd ysgolion),
- **tai** (statws blaenoriaeth Homebuy, digartrefedd, cyngor ar dai ayb),
- **budd-daliadau a threth** (disgownt treth y cyngor i aelodau'r Lluoedd Arfog sydd ag ail gartrefi ond sy'n byw mewn llety'r Weinyddiaeth Amddiffyn ayb)
- **cefnogaeth ar ôl gwasanaethu** (e.e hawl i Fathodyn Glas)
- **cofrestr etholwyr** (annog pleidleisio trwy ddirprwy / post)

4.3 Amcangyfrifir fod o leiaf chwarter miliwn o aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru, sy'n cynnwys aelodau sy'n dal i wasanaethu, aelodau wrth gefn a chadlanciau yn ogystal â'u teuluoedd a chyn filwyr. Er mwyn dal i gynnal proffil uchel, mae gan bob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth yng Nghymru 'Hyrwyddwyr' i gyn filwyr ac aelodau'r Lluoedd Arfog.
Rydym wrthi ar hyn o bryd yn adolygu swyddogaeth 'Hyrwyddwyr' yn y Cyngor ac felly byddwn yn gohirio unrhyw benderfyniad i benodol 'Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog' nes y daw'r adolygiad i ben.

4.4 Yng nghyfarfod ei Chyngor ar 24 Chwefror 2012, cyflwynodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru adroddiad ynghylch Memorandwm o Ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Leol Cymru a Chymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru. Diben yr adroddiad oedd rhoi gwybod i'r Aelodau am Gyfamod y Lluoedd Arfog Llywodraeth y DU ac am Becyn o Gefnogaeth i Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru, a cheisio chwilio am gyfleoedd i ddatblygu'r cyfamodau. Cafodd hynny gefnogaeth Sir Ddinbych.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gofyn i bob Bwrdd Gwasanaethau Lleol ystyried yr argymhellion sy'n cael eu hamlinellu ym 'Memorandwm o Ddealltwriaeth' Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a 'Phecyn o Gefnogaeth i Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru', Llywodraeth Cymru fel rhan o'i asesiad anghenion strategol.

4.5 Os bydd yn cael ei gymeradwyo, bydd y Cyfamod Cymunedol yn gytundeb partneriaeth a fydd yn cael ei lofnodi gan Gadeirydd y Cyngor ac uwch gynrychiolydd o'r Lluoedd Arfog a chynrychiolwyr o'r gymuned h.y. y Royal British Legion. Mae templed Cyfamod Cymunedol ynghlwm fel Atodiad 1.

**5. Sut y bydd y penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd llofnodi'r cyfamod yn ffurfiol yn dangos ein hymrwymiad i 'fynd yn agosach at ein cymuned' ac, yn ogystal â bod Catrawd Frenhinol Cymru'n derbyn Rhyddid y Sir, bydd yn ategu'n perthynas â chymuned y Lluoedd Arfog ac â'r cyn filwyr sy'n byw yn Sir Ddinbych.

**6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Yr ethos sy'n sail i'r Cyfamod yw na fydd aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog a chyn filwyr yn wynebu anfantais wrth geisio am leoedd mewn ysgolion, tai a gofal iechyd a gwasanaethau eraill sy'n cael eu darparu gan yr awdurdod.

Disgwylir y bydd unrhyw gostau, gyda'u cytundeb, yn cael eu hysgwyddo gan y Gwasanaethau unigol.

Mae gan y Weinyddiaeth Amddiffyn Gynllun Grant Cyfamod Cymunedol i roi cefnogaeth ariannol i brosiectau lleol sy'n cryfhau'r cysylltiad neu gyd ddealltwriaeth rhwng aelodau cymuned y Lluoedd Arfog a'r gymuned ehangach y maen nhw'n byw ynddi. Mae £30 miliwn ar gael gan y Weinyddiaeth Amddiffyn hyd at 2015. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y bidiau yn cael eu cyflwyno am symiau llai o gyllid i gefnogi prosiectau lleol a fyddai'n cynnig manteision pendant.

**7. Pa ymgynghori a wnaed?**

Rydym wedi cysylltu ag awdurdodau cyfagos ac â'r Bwrdd Iechyd sydd naill ai wedi mabwysiadu'r Cyfamod neu sydd yn y broses o ystyried ei fabwysiadu. Mae Llywodraeth Cymru a Phwyllgor Dethol Materion Cymru, Llywodraeth y DU wedi cysylltu'n ffurfiol â'r Cyngor i ofyn am ein cymeradwyaeth. Rydym hefyd wedi ymateb i ymholiadau gan sefydliadau'r Lluoedd Arfog megis 'UK Veterans Affairs' sy'n monitro dulliau awdurdodau lleol o fabwysiadu cyfamod.

Mae'r Uwch Dî m Arweinyddiaeth o'r farn fod:

- angen penderfyniad gwleidyddol i gymeradwyo'r Cyfamod ac y dylai'r cyngor fabwysiadu'r egwyddor na ddylai aelodau'r lluoedd arfog fod o dan anfantais wrth ofyn am wasanaethau cyhoeddus.

Mae'r Cabinet wedi cymeradwyo egwyddorion y Cyfamod ac yn argymell y dylai'r Cyngor ei gadarnhau'n ffurfiol.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Dylai'r costau sy'n gysylltiedig â darparu'r Cyfamod gael eu talu o'r cyllidebau presennol.

**9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Byddai methu â mabwysiadu’r Cyfamod yn ffurfiol yn adlewyrchu’n negyddol ar ein hymrwymiad i ‘fynd yn nes at y gymuned’.

**10. Yr Hawl i Benderfynu**

Mae hwn yn benderfyniad y mae’r Cabinet wedi cytuno a ddylai ei gymryd gan y Cyngor llawn.